

# PANEL DYFARNU CYMRU

## ADJUDICATION PANEL FOR WALES

Ymateb i:

Eich Cyf:  
Ein Cyf:

3 Awst 2009

Annwyl Gyfaill

### PANEL DYFARNU CYMRU - ADRODDIAD BLYNYDDOL 2008-2009

Rwyf yn ysgrifennu atoch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf aam weithgareddau Panel Dyfarnu Cymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mae 2008-09 wedi bod yn flwyddyn gymharol dawel i'r Panel o ran gwaith achos, gyda dim ond dau atgyfeiriad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ail hanner y flwyddyn ariannol, ac ni fu unrhyw apelïadau yn erbyn penderfyniadau'r pwyllgorau safonau. Oherwydd hyn, a chan nad oes unrhyw ofyniad statudol arnaf i gynhyrchu adroddiad blynyddol ffurfiol, rwyf wedi penderfynu y byddai'n well defnydd o adnoddau pe bawn yn anfon y newyddion diweddaraf atoch ar ffurf llythyr.

O'r ddau atgyfeiriad gan yr Ombwdsmon yn 2008-09, cafodd un ei benderfynu yn ystod y flwyddyn. Mae crynodeb o'r achos hwn isod.

#### **APW/001/2008-09 – Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**

Roedd yr atgyfeiriad gan yr Ombwdsmon yn ymwneud â honiadau fod y cynghorydd wedi torri cod ymddygiad y cyngor trwy ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol.

Roedd y digwyddiad honedig yn ymwneud â chymhorthfa gafodd ei gynnal gan y cynghorydd a lle bu wrthi'n rhannu'i brofiadau fel cynghorydd â thrydydd person a oedd yn sefyll yn yr etholiadau a oedd ar fin cael eu cynnal. Disgrifiodd y cynghorydd hanes achos merch a oedd wedi gwrthod tenantiaeth tŷ cyngor mewn ardal lle'r oedd ei thad yn byw, gan fod ei thad wedi'i cham-drin. Defnyddiodd y cynghorydd enw'r ferch wrth sôn amdani. Roedd y ferch yn llysferch i rywun arall a oedd yn bresennol yn y cyfarfod a oedd yn briod â thad y ferch dan sylw.

Ystafell 1-027  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

Room 1-027  
Cathays Park  
Cardiff  
CF10 3NQ

Ffôn.Tel 029 2082 6705  
Ffacs.Fax 029 2082 5346

Ebost.Email – [adjudication.panel@wales.gsi.gov.uk](mailto:adjudication.panel@wales.gsi.gov.uk)

Penderfynodd y Tribiwnlys Achos fod y cynghorydd wedi torri'r cod ymddygiad trwy ddatgelu enw unigolyn i rywun arall mewn amgylchiadau lle na ddylai fod wedi gwneud hynny ac, o'r herwydd, roedd wedi dod ag anfri ar ei swydd a'i awdurdod.

Nodwyd gan y Tribiwnlys Achos fod y cynghorydd yn cydnabod iddo wneud yr hyn a wnaeth, ei fod wedi gwasanaethu am gyfnod hir, ei fod yn ymddiheuro i bawb yr oedd yr achos wedi effeithio arnynt, a'r holl ffactorau lliniarol eraill. O ystyried amgylchiadau anarferol yr achos, daeth y Tribiwnlys Achos i benderfyniad unfrydol na fyddai'n angenrheidiol nac yn fuddiol i atal yr ymatebydd o'i swydd, naill ai'n llawn neu'n rhannol, na'i anghymhwys.

Er y bu 2008-09 yn dawel o ran llwyth achosion, bu'r Panel a minnau'n brysur gyda phethau eraill. Fel y dywedais y llynedd, roeddwn yn falch iawn fod David Laverick, Llywydd Panel Dyfarnu Lloegr, wedi derbyn fy ngwahoddiad i Banel Dyfarnu Cymru gynnal hyfforddiant ar y cyd rhwng y ddwy awdurdodaeth.

Mae sylwadau'r rhai a gymerodd ran yn y digwyddiad hwn, a gynhaliwyd ym Mae Caerdydd, yn awgrymu iddo fod yn llwyddiant mawr gan greu delwedd gadarnhaol o Gaerdydd a Chymru'n gyffredinol. Dechreuodd y digwyddiad gyda chyflwyniad ar 'Fair Treatment' gan Mark Hinchcliffe o'r Bwrdd Astudiaethau Barnwrol. Cafodd hwn ei ddilyn gan ymarferiad a sbardunodd drafodaethau brwd ymhlith y grwpiau. Daeth y diwrnod cyntaf i ben gydag ymweliad â'r Senedd dan ofal y Llywydd, yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas a'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, Dr Brian Gibbons AC. Hoffwn ddiolch iddynt ill dau am neilltuo amser yn eu hamserlenni prysur i ddod i siarad ag aelodau'r ddau Banel.

Mwynhaodd pawb yr ymweliad â'r Senedd, a rhoddodd hyn gyfle ardderchog i dynnu sylw at y newidiadau sydd wedi digwydd yng Nghymru ers datganoli.

Ym mis Ebrill, daeth Panel Dyfarnu Lloegr yn rhan o'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd, sef asiantaeth weithredol y Weinyddiaeth Gyfiawnder a grëwyd yn 2006. Mae'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn rhoi cymorth gweinyddol annibynnol i dribiwnlysoedd a sefydliadau'r llywodraeth ganolog, ac mae'n cefnogi 30 o awdurdodau tribiwnlysoedd.

Ym mis Medi, euthum i Gynhadledd Pwyllgorau Safonau Cymru yn Aberystwyth. Roedd hon yn gynhadledd ragorol a oedd yn galluogi'r rhai a gymerodd ran ynddi i rannu'u profiadau o'r cod ymddygiad newydd a ddaeth i rym yn 2008, ac i edrych ar unrhyw broblem sy'n dechrau ymddangos yn sgil ei weithredu. O'm rhan fy hun, roeddwn yn falch o gael y cyfle i ddiweddarau'r cynadleddwyr ynghylch gwaith y Panel Dyfarnu a chanlyniadau'r achosion sydd wedi dod gerbron ein tribiwnlysoedd.

Ym mis Hydref, euthum i Seithfed Cynulliad Blynyddol y Pwyllgorau Safonau yn Birmingham. Er bod rhan fawr o'r gynhadledd yn canolbwyntio ar y newidiadau i'r fframwaith moesegol yn Lloegr, roedd yna lawer a oedd yn berthnasol i Gymru, ac roedd yn dda rhannu profiadau â'n cyfeillion dros y ffin.

Ym mis Rhagfyr, cynhaliodd Panel Dyfarnu Cymru ei ddigwyddiad hyfforddi blynyddol ei hunan. Rhoddodd hyn gyfle i aelodau'r Panel edrych ar agweddau ar y cod ymddygiad newydd cyn i achosion ddod ger eu bron. Roeddwn felly'n falch dros ben fod Peter Tyndall, a ddaeth yn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ym mis Ebrill 2008, wedi gallu ymuno â ni i ddweud wrth yr aelodau am y problemau sy'n dechrau ymddangos yn sgil gweithredu'r cod newydd.

Rwyf yn gobeithio y bydd y diweddariad hwn o ddiddordeb i chi. I gael rhagor o wybodaeth am y Panel Dyfarnu, ewch i'n gwefan: [www.adjudicationpanelwales.org.uk](http://www.adjudicationpanelwales.org.uk) neu cysylltwch ag Uned Gymorth Panel Dyfarnu Cymru yn y cyfeiriad isod.

**J Peter Davies**  
**LLYWYDD Y PANEL**

Ystafell 1-027  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

Ffôn.Tel 029 2082 6705  
Ffacs.Fax 029 2082 5346  
Epost.Email – [adjudication.panel@wales.gsi.gov.uk](mailto:adjudication.panel@wales.gsi.gov.uk)

Room 1-027  
Cathays Park  
Cardiff  
CF10 3NQ